Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad (CA (3) 06-10)

Dyddiad: 25 Chwefror 2010
Amser: 9.00
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 25 Chwefror 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC, Alun Davies AC a Rhodri Morgan AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

CA390 – Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 3 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 4 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Mawrth 2010

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, am wybodaeth am y gweithdrefnau a ddefnyddir i ddarlunio a gwirio disgrifiadau o ardaloedd, yn arbennig ardaloedd y môr, gan ddefnyddio cyfesurynnau. Penderfynodd y Pwyllgor hefyd ofyn am fapiau/siartiau/cynlluniau perthnasol gyda'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

CA391 – Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 8 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Mawrth 2010

CA392 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Chwefror 2010. Fe'u gosodwyd ar 9 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 3 Mawrth 2010

CA393 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 6 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 9 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

CA394 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Chwefror 2010. Fe'u gosodwyd ar 9 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 3 Mawrth 2010

CA396 – Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 10 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

CA398 – Gorchymyn Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Diddymu) (Cymru) 2010
Y weithdrefn gadarnhaol. Dyddiad y'i gwnaed heb ei nodi. Bwriedir ei drafod mewn Cyfarfod Llawn ar 16 Mawrth 2010.

Nododd y Pwyllgor fod yr Offeryn Statudol hwn yn ganlyniadol ar ddarn arall o ddeddfwriaeth - CA397- Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 - sydd ar Agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Felly, cytunwyd i ohirio ystyried y Gorchymyn hwn tan hynny er mwyn caniatáu i'r ddau offeryn gael eu hystyried gyda'i gilydd.

Unrhyw faterion eraill

Ymchwiliadau'r Pwyllgor : Ymchwiliad i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion, a monitro canlyniadau adroddiadau'r pwyllgor ar Offerynnau Statudol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan David Lambert, Cymrawd Ymchwil, Canolfan Llywodraethu Cymru, Prifysgol Caerdydd ac Elizabeth Smith, Ymchwilydd, Canolfan Llywodraethu Cymru, Prifysgol Caerdydd.

Cytunodd Canolfan Llywodraethu Cymru, Prifysgol Caerdydd ddarparu tystiolaeth bellach o ran a yw'r camgymeriadau mewn is-ddeddfwriaeth yn digwydd pan gaiff fersiynau drafft Whitehall eu haddasu yn hytrach na phan gânt eu drafftio'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru. Cytunodd hefyd i ddarparu copïau electronig o'r fersiwn gyfunol o Atodiad 5 gydag eithriadau a materion eraill wedi'u hamlygu.

Cytunodd Clerc y Pwyllgor hefyd i ddarparu'r dogfennau canlynol ar gyfer yr Aelodau:

- yr adrannau hynny o adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ddiogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff o ran adrannau'r Gorchymyn a gafodd eu disgrifio gan Mr Lambert a Ms Smith fel gwagle;
- unrhyw gyngor perthnasol a roddwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ar y pryd gan gynghorwyr cyfreithiol y Cynulliad;
- y trawsgrifiad o unrhyw drafodion ym Mhwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 lle y trafodwyd y mater hwn gyda Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.
- y llythyr a anfonwyd ar y cyd gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ar y pryd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'i ymateb, ynghylch y Gorchymyn.

Yn ogystal, o ran monitro is-ddeddfwriaeth, cytunodd Clerc y Pwyllgor hefyd i ofyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ddarparu gwybodaeth bellach i'r Aelodau am y canlynol:

- y modd y mae gweinyddiaethau datganoledig eraill yn drafftio Offerynnau Statudol i weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd; a
- sut y caiff terminoleg gyfreithiol ei safoni mewn gwledydd Ewropeaidd eraill sydd ag awdurdod cyfreithiol amlieithyddol.

Ymchwiliadau'r Pwyllgor – gwybodaeth ychwanegol

Nododd yr Aelodau y dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i Fonitro canlyniadau adroddiadau'r Pwyllgor i Offerynnau Statudol.

Gohebiaeth y Pwyllgor: Llythyr gan Mike German AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ar adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ynghylch y Gorchymyn arfaethedig, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010

Trafododd y Pwyllgor y llythyr gan Mike German AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4, lle roedd yn tynnu sylw'r Aelodau at y casgliadau a'r argymhellion a wnaeth adroddiad ei Bwyllgor ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010 (a oedd yn gysylltiedig ag eglurder Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn arfaethedig).

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn ystyried pa gamau pellach i'w cymryd. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau fod hyn yn faes y gallai'r Pwyllgor ei ystyried yn y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o gyhoeddi ei ganllawiau ei hun ar arfer da wrth ddrafftio Memoranda Esboniadol ar gyfer Mesurau ac is-ddeddfwriaeth.

Penderfyniad i Gwrdd yn Breifat

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma ar gyfer yr Ymchwiliadau i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion a Monitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

25 Chwefror 2010